
Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency



# Neges

papurau achlysurol ar bynciau
i weithwragedd/wyr ieuenctid

## TRWYDDEDU YRRU CYFRIFIADURON EWROPEAIDD (ECDL)

**Adroddiad ar y Cam Cyntaf**

# TRWYDDEDU YRRU CYFRIFIADURON EWROPEAIDD (ECDL)

## Adroddiad ar y Cam Cyntaf

Barry Doughty, Swyddog Datblygu Cwricwlwm
(Rhagfyr 2000)
Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ
Ffôn 029 20 855700 Ffacs 029 20 855701
Mae'r adroddiadau hyn hefyd ar gael ar ein gwe: www.wya.org.uk

# CYNNWYS

**Tudalen**

**Cefndir** 3

**ECDL** 4
*Sut mae'n gweithio*
*Beth yw'r manteision*
*Sut mae profi pobl*
*Pam mae ECDL mor effeithiol*

**Materion** 6
*Cynnydd ar y cychwyn*
*Cynhadledd Undydd*
*Partneriaeth â'r TECs*
*Diwrnod Hyfforddi*
*Diwrnod hyfforddi arall ar adolygu a phrofion*

**Cynhadledd Dichonoldeb y Coleg Seiber a'r Adroddiad Arni** 8
*Crynodeb ac argymhellion*
*Datblygiadau posibl ECDL yn y dyfodol*

**Casgliadau a Argymhellion** 9

**Atodiad A** 10
*Crynodeb ac Argymhellion*

# European Computer Driving Licence (ECDL)

## CEFNDIR

Yn ystod mis Chwefror 1999 cyfarfu Swyddog Datblygu Polisi Cwricwlwm Cyngor Ieuenctid Cymru (CIC) â Pete Bayley o Gymdeithas Cyfrifiaduron Prydain yn sgil dysgu am fanteision y Drwyddedu Yrru Cyfrifiaduron Ewropeaidd (ECDL) yn ystod ymweliad â Chanolfan Ieuenctid ym Mro Morgannwg. Ymddangosai y gallai'r cymhwyster achrededig Ewropeaidd hwn greu dimensiwn defnyddiol arall i'r Gwasanaeth Ieuenctid o ran cwrdd â thargedau'r llywodraeth ar hyfforddiant TGCh ar gyfer unrhyw weithlu yn y dyfodol. Cyd-ddigwyddodd y fenter hon hefyd â datganiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyfrifiaduron i ddibenion addysgol o dan y cynllun Moderneiddio Cyfalaf.

Roedd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn edrych hefyd ar geisiadau a chyfleodd i gyllido awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol i gyrraedd targedau'r llywodraeth ar gynlluniau a strategaethau TGCh lleol. Roedd y Grid Dysgu Cenedlaethol a dilyniant i addysg bellach i 'bobl ifanc' a phobl hŷn drwy'r Brifysgol Diwydiant (ufi) yn fentrau eraill a fodolai ar y pryd. Roedd prosiect ar y cyd rhwng CIC, Rhwydwaith Coleg Agored De Ddwyrain Cymru (SEWOCN), YMCA Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) drwy'r rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm, hefyd ar gychwyn astudiaeth ddichonoldeb ar y posibiliadau o sefydlu Coleg Seiber i bobl ifanc yng Gan fod yr uchod yn digwydd yr un pryd barnwyd ei bod yn adeg briodol ac amserol i ystyried rhinweddau'r rhaglen **ECDL**.

## ECDL

**Cymhwyster** newydd **ledled Ewrop** yw **ECDL** sy'n galluogi pobl i ddangos eu cymhwysedd mewn sgiliau cyfrifiadura. Nodau **ECDL** yw: codi lefel gyffredinol cymhwysedd mewn TG; gwella lefel cynhyrchedd yn y gwaith; galluogi cyflogwyr i fuddsoddi'n fwy effeithiol mewn TG; a sicrhau bod yr arferion gorau o ran ansawdd yn cael eu deall aa'u gweithredu.

**Sut mae'n gweithio?**

Lluniwyd maes llafur **ECDL** fel ei fod yn ymdrin â chysyniadau allweddol cyfrifiaduron, sut i'w defnyddio yn ymarferol a'u lle yn y gweithle ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Rennir y maes llafur yn saith modiwl, a rhaid pasio pob un cyn y ceir dyfarnu tystysgrif. Mae **ECDL** yn agored i bawb – ni waeth am oedran, addysg, profiad na chefndir.

Y modiwlau yw:

- Cysyniadau sylfaenol Technoleg Gwybodaeth
- Defnyddio Cyfrifiaduron a Rheoli Ffeiliau
- Prosesu Geiriau
- Taenlenni
- Cronfa Ddata
- Cyflwyniad
- Gwybodaeth a Chyfathrebu

Gall ymgeiswyr astudio modiwlau mewn unrhyw drefn a thros gyfnod o amser – i gyd gyda'i gilydd, os dymunir – er mwyn hyblygrwydd. Ar ôl cwblhau pob modiwl yn llwyddiannus, cyfnewidir y llyfr log am dystysgrif. Os dymunant, caiff defnyddwyr gerdded i mewn o'r stryd a sefyll y profion (45 munud). Y tebyg yw y byddant yn dewis cyrsiau sy'n defnyddio maes llafur **ECDL** – ar-lein ac fel arall, neu drwy ddefnyddio CD ryngweithiol.

**Beth yw'r manteision?**

***……i'r unigolyn?***

*Lluniwyd* ***ECDL*** *i helpu pobl ddi-waith ac mewn swydd. Bydd yn cadarnhau i ddarpar gyflogwyr fod gan y person dan sylw gymhwyster proffesiynol, perthnasol a chyfoes a bydd o gymorth o ran codi ymwybyddiaeth o dechnoleg a sut i'w defnyddio.*

***……i'r cyflogwr?***

*Mae* ***ECDL*** *yn help i brofi bod gan ddarpar weithwyr gymhwysedd mewn sgiliau cyfrifiadura. Yn yr un modd, bydd cwmni sydd am hyfforddi ei weithlu am sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario ar gyrsiau yn cael ei wario yn y ffordd iawn.*

***……i'r hyfforddwr?***

*Mae darparwyr hyfforddiant yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd Systemau Gwybodaeth i fyd gwaith – ac yn fwyfwy i fywyd pob dydd yr unigolyn. Yn wir, mae llawer o gyrsiau eisoes yn ymgorffori elfennau helaeth o ddysgu mewn sgiliau cyfrifiadura elfennol ac uwch – ond nid oes cymhwyster cydnabyddedig.*

*Bellach ceir* ***ECDL,*** *sef cymhwyster ledled Ewrop sy'n ateb y gofynion hyn – a mwy na hynny!*

*Gall cyrsiau amrywio o ran natur. Ceir enghreifftiau gyda dosbarthiadau dydd a nos, colegau, darparwyr hyfforddiant**, darparwyr gwaith ieuenctid,** ysgolion a phrifysgolion. Er mwyn sicrhau bod y cyrsiau hyn yn hygyrch i bobl ifanc, bydd yn rhaid eu darparu drwy gyfrwng dysgu o bell ac ar gyrsiau rhyddhad o swydd neu drwy ddarparwyr addysg yn y brif ffrwd a/neu anffurfiol.*

**Sut mae profi pobl?**

Cynhelir profion mewn canolfannau profi a archwiliwyd a'r gobaith yw y bydd yr un peth yn digwydd mewn canolfannau i ddarparwyr gwaith ieuenctid yn y dyfodol agos.

**Pam mae ECDL mor effeithiol?**

Mae **ECDL** yn wahanol i bob cymhwyster arall am ei fod yn defnyddio'r agweddau gorau ar y gweddill.

Rhagwelir mai **ECDL** fydd y cymhwyster cydnabyddedig mwyaf cyffredin ym maes defnyddio cyfrifiaduron yn y gwaith, yn rhannol am ei fod wedi ei anelu at holl rychwant y boblogaeth, ac yn rhannol hefyd oherwydd cefnogaeth a systemau monitro'r cyrff sydd y tu ôl iddo.

**MATERION**

**Cynnydd ar y cychwyn**

Yn sgil sawl cyfarfod rhwng Pete Bayley o Gymdeithas Cyfrifiaduron Prydain a thîm rheoli Cyngor Ieuenctid Cymru ynglŷn â'r ffordd orau o gyflwyno'r cysyniad o ECDL o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru, penderfynwyd gweithredu fel a ganlyn: -

> Cynnal prosiect peilot gan ddefnyddio gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol yng ngogledd a de Cymru, mewn mannau trefol a gwledig, Cymraeg a di-Gymraeg, a hyn gan gynnwys corff gwirfoddol.

**Cynhadledd Undydd**

Cynhaliwyd cynhadledd undydd yn Broneiron (Canolfan breswyl a phencadlys Geidiaid Cymru) ar 11 Mai 1999.

Drwy gydweithrediad cadeirydd y grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid, estynnwyd gwahoddiad i wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol a ganlyn: -

- Conwy
- Mynwy
- Bro Morgannwg
- Penybont ar Ogwr
- Wrecsam
- Powys

Estynnwyd gwahoddiad hefyd i swyddogion o Ddinbych a Chaerdydd am eu bod wedi mynegi diddordeb.

Cynrychiolwyd y sector gwirfoddol yn y gynhadledd gan Glybiau Bechgyn a Merched Cymru.

Gofynnwyd i bob corff ddod â phum aelod o staff, gan gynrychioli'r meysydd TG a ganlyn, yn ddelfrydol:

- Un swyddog polisi
- Dau neu ddwy o weithwyr amser llawn (rheolwr/wraig, gweithiwr/wraig wyneb-yn-wyneb, o bosibl ym maes Cyngor a Gwybodaeth)
- Dau neu ddwy o weithwyr/addysgwyr rhan-amser sy'n darparu hyfforddiant TG i bobl ifanc

Dechreuodd rhaglen y diwrnod gyda chrynodeb o gefndir a hanes ECDL. Dilynwyd hyn gan ymarfer grŵp. Ar ôl hynny cafwyd sesiwn ar agweddau ymarferol ECDL a roddwyd gan Pete Bayley, a soniodd am y llyfrau log, am sefydlu canolfannau, am ofynion Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain ac am sut mae'r cynllun yn gweithio. Ar ôl cinio cafwyd sesiwn ymarferol a ddilynwyd gan gwestiynau ac atebion ac eglurhad ar y gwahanol ddulliau profi.

Daeth y diwrnod i ben gyda thrafodaeth ac ymrwymiad gan y rhai a fynychodd i gefnogi'r prosiect peilot yng Nghymru. Mynegodd rhai amheuon am weithredu'r cynllun, ond teimlid yn gyffredinol fod cyfle yma ac y dylid bwrw ymlaen gyda'r fenter.

Cafwyd cais am ddiwrnod arall o hyfforddiant ymarferol. Cytunodd swyddog y Cyngor â'r cais hwn a dywedodd y byddai'n gyfrifol am drefnu'r diwrnod.

**Partneriaeth â'r TECs**

Yn ystod y broses hon trefnwyd sesiynau gyda Lyndsey Evans o Gyngor Hyfforddiant a Menter (TEC) De Ddwyrain Cymru. Cynhaliwyd trafodaethau gyda TECs eraill yng Nghymru a chytunwyd i ariannu prynu 60 o lyfrau log yn costio £25 yr un i'r cyrff hynny a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect peilot.

**Diwrnod Hyfforddi**

Cynhaliwyd y diwrnod hyfforddi yn Llanfair ym Muallt ar 7 Gorffennaf, diolch i letygarwch Cyngor Sir Powys. Comisiynwyd Tom Charnley, ymgynghorydd annibynnol o Ddinbych i ddarparu'r hyfforddiant a thalwyd amdano gan **ECDL**. Yn anffodus, dim ond dau a oedd wedi mynychu'r cyfarfod cychwynnol a ddaeth i'r diwrnod hyfforddi. Ymunwyd â ni, er hynny, gan fudiad gwirfoddol arall, sef Living Proof o Gasnewydd ar y diwrnod am eu bod wedi mynegi diddordeb, er na allent fynychu'r cyfarfod cyntaf. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud y byddai'n well ganddo drafod gyda'r hyfforddwr yn uniongyrchol am i fod yn byw yn yr ardal. Gofynnodd Cyngor Conwy am ragor o amser i baratoi am ei fod newydd benodi arbenigwr TG i'w wasanaeth ieuenctid ac roedd am i'r arbenigwr gymryd rhan yn y fenter. Mynegodd ddiddordeb ac roedd yn neilltuol o awyddus i fanteisio ar y llyfrau log a gynigiwyd. Cafodd sefydliadau eraill fod ganddynt flaenoriaethau eraill ar y pryd, ond roedd ganddynt ddiddordeb o hyd mewn datblygiadau pellach. Daeth y diwrnod hyfforddi i ben gyda chyfle i adolygu'r profion a chyfle hefyd i'r rhai a oedd yn bresennol fynd ati i ddilysu, gan gynnig profion i bobl ifanc cyn gynted â phosibl. Cytunodd swyddog CIC i drefnu'r sesiynau hyn, a phenderfynwyd y byddai mis Medi'n briodol.

**Diwrnod hyfforddi arall ar adolygu a phrofion**

Cynhaliwyd prynhawn arall o hyfforddiant ar 24 Medi, gyda phrofion y diwrnod wedyn ar 25 Medi.

Er bod y niferoedd a fynychodd yn llai na'r disgwyl, llwyddodd y rhai a ddaeth ynghyd (cyfanswm o 13) i gwblhau 77 o fodiwlau dan amodau arholiad. Oddi ar hynny, cafwyd bod **dau** o bobl (un person ifanc ac un oedolyn) wedi cwblhau a phasio pob modiwl, gan ennill tystysgrif **ECDL.** O'r gweddill, dim ond un modiwl sydd i'w gwblhau gan saith o bobl er mwyn ennill tystysgrif, ac mae gan y gweddill sawl modiwl i'w gwblhau. Wrth i'r adroddiad hwn fynd i'r wasg, mae rhai o'r rhain eisoes wedi bwrw ymlaen gyda modiwlau dan amodau arholiad a deallaf eu bod i gyd wedi pasio.

## CYNHADLEDD DICHONOLDEB Y COLEG SEIBER A'R ADRODDIAD ARNI

### Crynodeb ac argymhellion

Ceir taflen yn cynnwys crynodeb ac argymhellion yn **Atodiad A** i'r adroddiad hwn. Mae copïau o'r adroddiad llawn ar gael gan Gyngor Ieuenctid Cymru am £5 yr un gyda chludiant yn ychwanegol.

Wrth i'r prosiect peilot yma ddatblygu, roedd menter arall ar ddigwydd. Hanfod y fenter hon oedd trefniant partneriaeth gyda YMCA Cymru, Cyngor Ieuenctid Cymru, CGGC – Gwirfoddolwyr y Mileniwm a Rhwydwaith Coleg Agored De Ddwyrain Cymru dwy Gronfa Gymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd. Baich y gwaith a wnaed yn y gynhadledd honno oedd ystyried y gwahanol ddulliau amrywiol o ddarparu'r dechnoleg newydd.
Cynrychiolwyd **ECDL** yn y gynhadledd a mynegodd y cynadleddwyr ddiddordeb mewn cymhwyso **ECDL** yn eu rhaglenni gwaith gyda phobl ifanc. Cafwyd ceisiadau am y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau. Nodwyd hefyd y gallai ECDL gael effaith arwyddocaol ar y Coleg Seiber pe bai cyllid a datblygiadau'n llwyddo.

### Datblygiadau posibl ECDL yn y dyfodol

Cafodd y Swyddog Datblygu Polisi Cwricwlwm gyfarfod arall gyda Pete Bayley ar 1 Rhagfyr er mwyn cloriannu cynnydd y cynllun peilot ac i ystyried y materion a ganlyn: -

- Llyfrau log Cymraeg
- Cofrestru – cofnod o bobl ifanc o Gymru
- Canolfannau achredu ac asesu mewn sefydliadau dan ofal y gwasanaeth ieuenctid
- Cysylltiadau â darparwyr eraill mewn adrannau eraill, neu o fewn adran y gwasanaeth ieuenctid

Cynhwyswyd ein trafodion yn y paragraffau ar argymhellion a chasgliadau.

## CASGLIADAU

I gloi, bu canlyniadau'r prosiect peilot yn gyfyngedig ond yn gadarnhaol. Mae rhai awdurdodau wedi cael trafferth i ymrwymo i'r cynllun oherwydd y gofynion sydd arnynt a'r blaenoriaethau eraill sydd ganddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er bod gweithgareddau eraill yn cael blaenoriaeth, yn gyffredinol, cytunodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau a oedd wedi cytuno i ddwyn y prosiect ymlaen y byddent am weld y fenter hon yn datblygu ymhellach. Mae'n bosibl iawn y bydd rhai awdurdodau a sefydliadau eraill mewn gwell safle i arddel y rhaglen yn y dyfodol agos.

## ARGYMHELLION

1. **Negodi a cheisio cyllid i achredu dwy ganolfan gwaith ieuenctid fel canolfannau arholi.**

2. **Ymchwilio a cheisio costau llyfrau log dwyieithog.**

3. **Cwrdd â'r awdurdodau lleol a fu'n rhan o'r prosiect peilot er mwyn cloriannu cynnydd a'r angen am unrhyw gymorth pellach.**

4. **Ystyried y ffordd orau o gofnodi canlyniadau a dangosyddion bod pobl ifanc neu staff y gwasanaeth ieuenctid yn cymryd rhan yn y cynllun ECDL.**

5. **Cwrdd â Phrif Swyddogion a Chyfarwyddiaeth CWVYS er mwyn cael eu barn am ddatblygiadau pellach.**

***Barry Doughty***
***Swyddog Polisi Cwricwlwm***
***Cyngor Ieuenctid Cymru***
***Rhagfyr 2000***

***ATODIAD A***

## ASTUDIAETH DICHONOLDEB Y BARTNERIAETH COLEG IEUENCTID
## Chwefror-Mehefin 2000

### Crynodeb ac Argymhellion

- Mae Astudiaeth Dichonoldeb y Bartneriaeth Coleg ieuenctid yn bartneriaeth rhwng YMCA Cymru, Cyngor Ieuenctid Cymru, Rhwydwaith Coleg Agored De Ddwyrain Cymru, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.

- Pwrpas yr Astudiaeth Dichonoldeb oedd adnabod y potensial i ddatblygu Coleg Seiber yng Nghymru i bobl ifanc 'ddatgysylltiedig' (14-25 oedd) a gwneud argymhellion ar ddatblygu coleg o'r fath yn y dyfodol.

- Dyma rai o'r prosesau a fu'n rhan o'r Astudiaeth Dichonoldeb:

    - Archwiliad o ddarpariaeth i bobl ifanc ddatgysylltiedig
    - Nodi gofynion dysgwyr gan gynnwys
    - Hyfforddiant, sgiliau a dyheadau
    - Maint y cymorth unigol angenrheidiol
    - Nodi darpariaeth gyfredol sy'n ateb gofynion dysgwyr
    - Nodi bylchau yn y ddarpariaeth
    - Nodi gofynio0n darparwyr y Coleg Seiber
    - Datblygu model Gwefan
    - Datblygu fframwaith o egwyddorion ac amcanion i'r Coleg Seiber
    - Nodi cyfleoedd i gydweithio, datblygu a chyllido'r coleg yn y dyfodol

- Defnyddiwyd amrywiaeth o fethodoleg ymchwil wrth gynnal yr Astudiaeth Dichonoldeb.

- Mae'r ddarpariaeth genedlaethol ar gyfer pobl ifanc 'ddatgysylltiedig' yn fylchog ac anghyson.

- Mae cyfleoedd yn bod i wella cynlluniau a darpariaeth addysg a hyfforddiant i bobl ifanc yn y grŵp targed.

- Nodwyd y byddai datblygu Coleg Seiber yn gallu gwneud cyfraniad realistig, priodol a gwerthfawr i lefelau a phatrymau darpariaeth ar draws Cymru i bobl ifanc 'ddatgysylltiedig'

- Mae nifer o bobl ifanc yn y grŵp targed wedi cael profiadau negyddol o addysg. Mae'r profiadau hyn wedi ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn parhau i dderbyn addysga hyfforddiant

- Mae'n well gan lawer o bobl yn y grŵp targed ddysgu mewn mannau lleol sy'n hygyrch, yn gyfeillgar ac yn gyffrous

- Galwedigaethau gwyddonol, technegol ac ymarferol yw'r prif yrfaoedd o ddewis ymhlith y grŵp targed

- Mae ar y grŵp targed angen amrywiaeth o gymorth ymarferol ac unigol

- Caiff y Coleg Seiber ei ddatblygu drwy strwythurau sy'n annog partneriaeth a pherthynas rhwng dysgwyr, darparwyr, cynhalwyr, mentoriaid ac aseswyr. Caiff grŵp polisi a strategaeth ei sefydlu i gynorthwyo'r broses hon

- Caiff gwefan hygyrch ei datblygu a'i rheoli yn unol ag angen y Coleg Seiber a'r bobl sy'n ei ddefnyddio. Datblygwyd model o'r wefan hon fel rhan o brosesau'r Astudiaeth Dichonoldeb

- Mynegwyd diddordeb helaeth gan y sectorau gwasanaethau mewn defnyddio a datblygu'r Coleg Seiber yn y dyfodol

- Prif anghenion a blaenoriaethau'r Coleg Seiber ar gyfer y dyfodol yw:

    - Sefydlu rhwydwaith i aelodau
    - Nodi anghenion hyfforddiant
    - Datblygu systemau sicrwydd ansawdd
    - Datblygu deunyddiau dysgu
    - Datblygu trefniadau asesu
    - Sefydlu Grŵp Polisi a Strategaeth
    - Datblygu Grid Dysgu Cymunedol
    - Negodi a thrafod gyda darparwyr presennol Dysgu Ar-lein er mwyn nodi partneriaethau a chydweithrediad yn y dyfodol
    - Dilyn prosesau gwleidyddol er mwyn cael cefnogaeth ehangach i'r Coleg Seiber.